# Cronfa Ymateb Cymunedol COVID-19
# SIR GAERFYRDDIN

## Nodiadau Cyfarwyddyd

Mae **Cronfa Ymateb Cymunedol COVID-19** Sir Gaerfyrddin yn gynllun ar y cyd a gefnogir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS), Cyngor Sir Caerfyrddin, LEADER, Cronfa'r Degwm, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Nodau'r grant**

Bydd **Cronfa Ymateb Cymunedol Covid-19** Sir Gaerfyrddin yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i wneud y canlynol:

1. cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai agored i niwed yn ystod argyfwng Coronafeirws (COVID-19)
2. sicrhau bod gan sefydliadau/grwpiau cymunedol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau
3. annog protocolau iechyd a diogelwch cadarn yn ystod pob gweithgaredd sy'n diogelu staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a buddiolwyr y sector gwirfoddol

Dyma rai **enghreifftiau** y gellid eu hystyried ar gyfer cyllid:

- argraffu taflenni i'w dosbarthu o ddrws i ddrws er mwyn cyrraedd unigolion nad ydynt ar-lein
- offer e.e. cynwysyddion ar gyfer storio/dosbarthu bwyd
- gwasanaethau cymorth lefel isel e.e. siopa, casglu moddion, cerdded cŵn, garddio, gwaith tŷ
- lleihau arwahanrwydd cymdeithasol megis galwadau ffôn, mentrau cynhwysiant digidol, ffonau symudol a thalebau ychwanegol ('top up')
- gweithgareddau sy'n datblygu "grwpiau" lleol o wirfoddolwyr/cynorthwywr i gefnogi pobl hŷn, gwella sgiliau gwirfoddolwyr/cynorthwywyr, treuliau parod e.e. tanwydd
- cymorth ar gyfer gofalwyr di-dal neu ofalwyr cyflogedig, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (P.P.E)
- creu deunyddiau/gweithgareddau ar-lein newydd, marchnata a hyrwyddo
- darparu prydau, parseli bwyd brys neu gymorth arall i'r rhai sy'n ynysu ac agored i niwed.

**Cynnig Grant**

Gall grwpiau cymunedol (***heb eu sefydlu'n ffurfiol***) wneud cais am uchafswm o **£250**. (Os hoffech gael eich sefydlu'n ffurfiol, cysylltwch â ni cyn gwneud cais).

- Mae'n rhaid eich bod wedi cofrestru eich grŵp gyda CAVS. Cysylltwch â Jamie Horton Jamie.Horton@cavs.org.uk.
- Bydd angen i chi hefyd roi enw person awdurdodedig e.e. cydgysylltydd y grŵp, pwyllgor neuadd gymunedol neu gyngor tref/cymuned i dderbyn y grant ar ran y grŵp.

Dylid anfon ceisiadau i admin@cavs.org.uk

**Sylwer:**
Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth megis derbynebau, a/neu anfonebau lle bo'n berthnasol, i ddangos unrhyw gostau.
Gallai methu â darparu'r dystiolaeth uchod olygu bod angen ad-dalu'r arian a dderbyniwyd eisoes.

2. Gall ymgeiswyr sydd wedi'u ***sefydlu'n ffurfiol*** wneud cais am hyd at **£1,000.**

Mae hyn yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol neu fentrau cymdeithasol sy'n hunanlywodraethu, yn dosbarthu'n ddielw ac yn gweithio er budd y cyhoedd/y gymuned – yn ogystal â Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae'n rhaid i sefydliadau gwirfoddol gael dogfen lywodraethu (Cyfansoddiad, Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, neu Weithred Ymddiriedolaeth) sydd wedi'i llofnodi a'i dyddio; a chyfrif banc sydd wedi'i sefydlu yn enw'r sefydliad, gydag o leiaf ddau lofnodwr a enwir nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad.

Dylid anfon ceisiadau i **RDPSirGar@sirgar.gov.uk**

**Sylwer:**
Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth megis derbynebau, a/neu anfonebau yn ogystal â ***chopi o gyfriflenni banc*** yn dangos taliadau am eitemau cymwys yn unol â'ch cais.
Gallai methu â darparu'r dystiolaeth uchod olygu bod angen ad-dalu'r arian a dderbyniwyd eisoes.

**Bydd y grant yn cael ei dalu ymlaen llaw ar gyfradd grant o 100%**

**Adrodd**

- Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus adrodd yn ôl i'r cyllidwr o fewn un mis ar ôl i'r gweithgaredd ddod i ben.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno adroddiad byr am y gweithgareddau a drefnwyd gennych, faint o bobl a elwodd, ac unrhyw straeon newyddion da am y gweithgareddau a gyflawnwyd.
- Bydd yn ofynnol i bob grŵp a gefnogir gadw cofnod o oriau gwirfoddoli sydd wedi cefnogi'r gweithgaredd a ariennir. Bydd grwpiau llwyddiannus yn cael templed er mwyn casglu'r wybodaeth hon.

**Amserlen**

- Mae'n rhaid derbyn ceisiadau erbyn 31 Gorffennaf 2020 fan hwyraf. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

Cysylltwch â RDPSIRGAR@sirgar'gov.uk er mwyn cofrestru eich diddordeb a gofyn am ffurflen gais